

Gwerslyfrau Cyngor Ysgolion Sul Cymru

CYFRES GOLAU AR Y GAIR

Y Pasg:

Iesu'n Brenin

Deunydd Ysgol Sul
i rai rhwng 3 a 14 oed

Testun: Sarah Morris

Lluniau: Dawn Wilks

Cyhoeddwyd gan
Cyngor Ysgolion Sul Cymru



Cyfres Golau ar y Gair: Ilyfrau 2007/08

Porthi'r Pum Mil

Gideon - yn ymladd dros Dduw

Y Nadolig

Teulu Newydd Ruth

Moses - Y Dywysoges a'r Baban

Y Pasg – Iesu'r Brenin

Samuel – Duw yn siarad â Samuel

Y Pentecost – Newyddion Da lawn

Daniel – yn ffau'r Llewod

Damhegion Iesu - Cyfrinachau'r Deyrnas

Y Pasg: Iesu'r Brenin © Cyhoeddiadau'r Gair 2007

Testun: Sarah Morris

Tafleuni atodol: Leah Slaymaker

Darluniau gan Dawn Wilks

Cynllun y clawr: Ynyr Roberts

Golygydd Cyffredinol / Cysodi: Aled Davies

ISBN 1 85994 594 5

Argraffwyd yng Nghymru gan Finline, Rhuthun.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir copïo y deunydd hwn mewn unrhyw ffordd oni cheir caniatâd y cyhoeddwr, heblaw lle rhoddir caniatâd i atgynhyrchu tafleuni gwaith yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd yn yr ysgol Sul.

Cyhoeddwyd gan:

Cyhoeddiadau'r Gair, Cyngor Ysgolion Sul Cymru,

Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Rhoddir caniatâd a rhyddid i lungopïo deunyddiau gweledol a thudalennau gweithgaredd ar gyfer eu defnyddio mewn dosbarth yn unig. Gofynnwn fod pob person sy'n defnyddio y llyfr ar gyfer dysgu yn prynu ei gopi ei hun. Mae copïo a rhannu heb awdurdod yn waharddedig.

Cyflwyniad i'r gyfres

Pan sefydlwyd Cyngor Ysgolion Sul fel menter gydenwadol ddeugain mlynedd yn ôl, y nod o'r cychwyn cyntaf oedd darparu adnoddau a gwerslyfrau addas i blant, ieuenctid ac oedolion Cymru. Dros y blynyddoedd cyhoeddwyd cyfresi o werslyfrau, megis Cyfres y Gair, Gyda'n Gilydd, ac Ar y Ffordd. Bu i lawer o'r deunydd yma gael ei gyfieithu o'r Saesneg, gan edrych i gyfeiriad Eglwys yr Alban, Scripture Union, NCEC a TnT Ministries. Bu cyfieithu erioed yn ateb delfrydol nac yn hawdd, gan bod cyd-destun yr Ysgol Sul yng Nghymru mor wahanol. Wrth gyflwyno'r gyfres newydd hon i'ch sylw, rydym yn falch o ddweud bod hon yn gyfres gwbl wreiddiol, wedi codi o lawr gwlad, ar gyfer y sefyllfa Gymreig. Mae gan Gyngor Ysgolion Sul banel gwerslyfrau cydenwadol, gydag aelodau profiadol ymysg gweinidogaethu i blant, ac mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y maes llafur a chynnwys y llyfrau. Mae'r gwersi yn cael eu paratoi gan Sarah Morris, a chanddi hithau hefyd blynyddoedd lawer o brofiad o weithio gyda phlant mewn ysgolion Sul a chlybiau plant yng nghylch Llansannan. Hyderwn felly y bydd y gyfres hon yn gymeradwy gan ein hysgolion Sul, ac yn fodd i arfogi athrawon wrth gyflwyno gwersi o Sul i Sul.

Yr hyn a geir yma yw gwerslyfr athro ar stori neu thema arbennig, a bydd llyfr newydd yn cael ei gyhoeddi bob mis. Un llyfr sydd ei angen gan bod y deunydd plant ac ieuenctid yn gynwysiedig fel taflenni ac atodiadau i'w llungopïo. O fewn pob llyfr ceir:

Cynllun gwersi ar gyfer plant meithrin i 5 oed

Ceir yma amrywiaeth o syniadau o dan y penawdau Amser Chwarae, Amser Stori, Amser Creadigol ac Amser Canu a Gweddïo. Yn ychwanegol i hyn, ceir detholiad o daflenni gwaith i'w llungopïo.

Cynllun gwersi ar gyfer plant 6-11 oed

Ceir yma ddewis eang o weithgareddau arbennig i rai rhwng 6-8 oed a 8-11 oed. Nodir amcanion clir ar gyfer pob gwersi, gyda ffyrdd gwahanol o gyflwyno a dysgu'r stori, syniadau crefft, cwis, gemau, drama, gweddïau a deunydd defosiwn. Ceir hefyd dewis o daflenni gwaith ar gyfer y ddau grŵp oed gwahanol.

Cynllun gwersi ar gyfer rhai rhwng 11-14 oed

Ceir yma dri thema yn deillio o'r stori, gydag amrywiaeth o syniadau creadigol a diddorol, a chyfle hefyd i drafod a sgwrsio.

Atodiadau a deunydd ychwanegol

Ceir nifer o atodiadau hefyd, yn cynnig syniadau ychwanegol a deunydd gweledol. Ar y CD sy'n dod gyda'r llyfr, mae yna ddetholiad ychwanegol o daflenni, rhai yn arbennig gyda phwyslais addysgol, ar gyfer y sefyllfaoedd hynny lle mae'r stori yn cael ei datblygu yn yr ysgol leol. Rhestrir yn y llyfr hefyd rhai adnoddau ychwanegol e.e. llyfr stori ar y thema neu ddeunydd gweledol a chrefft. Cofiwch hefyd bod pob un o'r storïau hyn i'w cael ar ffurf fideo, fel rhan o'r gyfres Beibl Fideo.

Gwasanaeth Teuluol

Paratowyd gwasanaeth teuluol hefyd ar gyfer bob uned, a gobeithio bydd hyn o gymorth i ddod â bwrlwm yr ysgol Sul i mewn i fywyd yr eglwys, gan greu cymuned sy'n dysgu ac addoli gyda'i gilydd.

Cofiwch gysylltu os am gymorth neu gyngor gyda'r deunydd. *Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul*



Cyflwyniad i'r athro: Y Pasg

Pa atgofion sydd gennych chi o adeg y Pasg fel plentyn? Yr hyn sy'n aros yn fy nghof i yw ein bod yn gorfod cael dillad newydd wedi eu gwnïo gan fy mam, ar gyfer Sul y Pasg. Dwi'n cofio un flwyddyn yn arbennig, pan oeddwn i tua saith oed, yn cael ffrog werdd "emerald green," gyda darn o ddefnydd patrymog ar y frest! Mae'n rhaid ei bod hi'n dipyn o ffrog i fod wedi aros yn fy nghof cyhyd!!


Dillad newydd - dyna mewn gwirionedd ydi neges y Pasg. Mae Iesu'n cynnig set o ddillad newydd sbon i ni yn lle'r rhai budron sydd gennym. Er mwyn prynu'r dillad i ni, bu'n rhaid iddo farw ar y groes. Yn y fan honno, 'gwisgodd' ein dillad budr arno'i hun, a'n meddyliau drwg, a'n gweithredoedd hunanol, a'n geiriau creulon ac anonest. Ac wedyn, wrth Atgyfodi, daeth â dillad newydd - rhai glân a phur - yn lle'r rhai budron, a rheiny ar gael i bwy bynnag sy'n gofyn amdanynt.

Pam oedd e'n fodlon gwneud y fath aberth? Mae Iesu yn dweud ei hun, yn Ioan 3:16, oherwydd "Carodd Duw y byd...."

Gyda'r bobl ifanc, byddwn yn ystyried sut y bu i fywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu gyflawni bwriadau Duw fel y cawsant eu rhagddweud drwy'r proffwydi. Byddwn yn ceisio cyflwyno ystyr y groes a'r atgyfodiad drwy sylwi ar eiriau olaf Iesu a phrofiad Mair Magdalen.

Mae gweithgareddau'r plant yn dilyn y tri prif ddigwyddiad: ceir deunydd ar gyfer Sul y Blodau, hanes y Croeshoeliad a Sul y Pasg, sy'n cynnwys yr elfennau arferol sef, Cyflwyno'r Thema/Stori, Amser Creadigol, Amser Drama ac amrywiaeth o weithgareddau eraill. Mae gennych ryddid i ddewis yr hyn sy'n addas ar gyfer eich sefyllfa yn lleol.

Fy ngweddi a'm gobaith yw y byddwch yn profi ychydig o'r rhyfeddod a brofais i wrth baratoi'r gyfres hon. Mae'n fraint ac yn gyfrifoldeb i ni gyflwyno hanes ein Gwaredwr i'n plant a'n pobl ifanc – gweddiwn y byddant hwy hefyd yn dod at yr Iesu i geisio "dillad newydd" i'w gwisgo "yn hardd gerbron y Tad."



Rhestr Adnoddau Llyfrau stori

Stori'r Pasg
Pris £3.95

Taith i Jerusalem
Pris £3.99

**Iesu'n marw.. ond nid
dyna'r diwedd.**
Pris 60c

Rhywun Arbennig lawn
Pris £2.99

Angylion y Pasg
Pris £4.95

Y Pasg: Beiblau Lliw

Beibl Bach i Blant: Rhif 55-58, tud. 423
Beibl Lliw y Plant, tud. 256 ymlaen
Beibl Lliw y Teulu, tud. 145 ymlaen
Beibl y Plant Lleiaf, tud. 228 ymlaen
Y Beibl Graffig: Y Pasg

Fideos


Cyfres y Beibl Fideo: Tâp 5: stori 6 a 7

Gŵr y Gwyrthiau – gan S4C.
Ar gael gan Cyngor Ysgolion Sul.

Easter Story: Animated Stories from the Bible
– Nest Entertainment.
Ar gael o www.amazon.co.uk



Oed Meithrin – 5 Iesu'r Brenin: Marc 14-16



Amcanion

- ❖ i gyflwyno prif ddigwyddiadau hanes y Pasg i'r plant
- ❖ i bwysleisio cariad yr Iesu

AMSER CHWARAE

1. Rhowch gynffon i'r asyn

Defnyddiwch lun yr asyn sydd yn Atodiad 1, wedi'i chwyddo. Byddwch angen cynffon, darn o 'blutac' i'w lynu, a sgarff yn fwgwd. Gadewch i bob plentyn gael tro i osod y gynffon ar yr asyn. Ar ôl i bawb gael tro, gofynnwch i'r plant a ydynt wedi gweld asyn neu efallai wedi bod ar gefn mul ar lân y môr. Esboniwch bod ein stori wir o'r Beibl heddiw yn sôn am sut y bu Iesu Grist yn marchogaeth asyn un tro.

2. Yn fyw neu yn farw?

Byddwch angen amrywiaeth o eitemau i ddangos i'r plant – pethau sy'n fyw, e.e. planhigyn, llun aderyn, llun anifail; rhai sydd wedi marw, e.e. blodyn sydd wedi gwywo, darn o bren/brigyn, a rhai na fu erioed yn fyw, e.e. tegan, carreg. Gofynnwch i'r plant eich helpu i ddiolli'r eitemau i dri categori. Dangoswch hadau i'r plant gan ofyn a ydynt yn fyw neu'n farw? Esboniwch, er eu bod yn edrych yn farw, mae'n bosib y bydd yr hadau yn tyfu i fod yn blanhigion newydd, hardd. Esboniwch y byddwn yn clywed heddiw am hanes Iesu Grist yn marw. Er bod hon yn stori drist, mae diwedd hapus i'r stori.



3. Helfa wyau

Byddwch angen digon o wyau, fel bod pob plentyn yn cael o leiaf un ŵy. Gewch ddefnyddio wyau siocled bach neu siapiau papur. Cuddiwch yr wyau cyn i'r plant gyrraedd. Gadewch i'r plant chwilio am yr wyau – un plentyn ar y tro neu bawb gyda'i gilydd. Wrth i'r plant fwyta'r wyau dangoswch lun cywion bach yn deor, Atodiad 2, a thrafodwch yr hyn sy'n digwydd. Esboniwch wrth y plant bod yr wyau a'r cywion bach yn ein helpu ni i feddwl am fywyd newydd. Heddiw, byddwn yn clywed sut y daeth Iesu Grist yn ôl yn fyw – cafodd Iesu fywyd newydd.

4. Wyt ti'n cofio?

Casglwch ddeg eitem cyfarwydd a'u rhoi ar hambwrdd. Edrychwch ar yr eitemau, un ar y tro, gan ofyn cwestiynau i'r plant wrth fynd ymlaen, e.e. beth ydy pwrpas yr eitem yma? Gorchuddiwch yr eitemau gyda lliain. Gadewch i'r plant geisio cofio'r deg eitem. Rhowch gliwiau os oes angen. Ar ôl i chi enwi bob un, gorchuddiwch yr eitemau eto a chymerwch eitem oddi ar yr hambwrdd heb i'r plant ei weld. Pwy sy'n gwybod beth sydd ar goll? Ailadroddwch sawl gwaith. Canmolwch y plant am gofio mor dda. Esboniwch wrth y plant bod pobl trwy'r byd yn cofio rhywun arbennig yr adeg yma o'r flwyddyn. Adeg y Pasg rydym yn cofio bod Iesu Grist wedi marw ar y groes ac wedi dod yn ôl yn fyw. Mae'n bwysig inni gofio hyn oherwydd bod Iesu yn ein caru ni ac yn gofalu amdanom. Mae Iesu yn berson arbennig iawn, iawn, iawn.



AMSER STORI

Defnyddiwch lyfr stori Beiblaidd i gyflwyno'r stori – gweler y dudalen 'Adnoddau'. Cofiwch adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun tra'n edrych ar y lluniau. Dewisiwch un o'r syniadau canlynol i atgyfnerthu'r hanes neu i gyflwyno'r stori, os yw hynny'n well gennych.

1. Hwrê – mae'r Brenin yn dod!

Bydd rhaid cael amser crefft yn gyntaf er mwyn defnyddio'r syniad yma. Ar ôl creu'r dail (gweler Amser Crefft 1), gall y plant ddefnyddio'u dail wrth i chi adrodd yr hanes.

Adroddwch yr hanes o safbwynt un o'r bobl oedd yn y dyrfa yn dilyn Iesu a'i ddisgyblion i ddinas Jerwsalem. Meimiwch y digwyddiadau gyda'r plant. Esboniwch bod Iesu wedi danfon dau o'r disgyblion i nôl yr asyn; bod neb erioed wedi marchogaeth yr asyn o'r blaen; sut y bu i'r bobl ddechrau dilyn Iesu gan weiddi, "Hosanna – mae'r Brenin yn dod"; sut y bu i'r bobl ddechrau torri canghennau i'w chwifio a gosod eu cotiau ar lawr i'r asyn droedio arnynt. Cerddwch o amgylch yr ystafell yn chwifio'r dail ac yn gweiddi "Hosanna, mae'r Brenin yn dod." Roedd y bobl mor hapus o weld Iesu, roedden nhw eisiau i Iesu fod yn Frenin arnynt oherwydd roeddent yn gwybod fod Iesu yn arbennig a'i fod yn eu caru nhw.

2. Y diwrnod mwyaf trist

Byddwch angen plât papur neu darn o bapur siâp hirgrwn. Gofynnwch i'r plant beth sy'n achosi iddynt deimlo'n drist? Tynnwch lun wyneb trist ar y plât/papur. Os ydych wedi darllen hanes y croeshoeliad i'r plant, gofynnwch iddynt beth oedd yn drist yn ein stori heddiw. Neu, esboniwch bod rhai pobl yn casáu Iesu, er ei fod yn ddyn caredig a chlên, a'u bod wedi lladd Iesu. Roedd ffrindiau Iesu mor drist ei fod wedi marw. Ond, nid dyna yw diwedd y stori – byddwn yn clywed y tro

nesaf bod rhywbeth anhygoel wedi digwydd, rhywbeth da iawn.

3. Y diwrnod mwyaf hapus

Adroddwch hanes yr atgyfodiad gan ddefnyddio pypedau, Mair Magdalen a Iesu – gweler Atodiad 2. Cyflwynwch y ddau gymeriad ac atgoffwch y plant bod Iesu wedi marw a chael ei gladdu mewn bedd mewn ogof yn yr ardd, yn ôl arfer yr amser.

Mair: Rwyf mor drist. Ar ddydd Gwener bu farw Iesu, y ffrind gorau ges i erioed. Roeddwn wedi ei gladdu yn yr ardd. Dydw i ddim yn deall. Roeddwn yn meddwl fod Iesu yn arbennig, Mab Duw. Pam fod Iesu wedi marw? Dyma'r diwrnod mwyaf trist yn fy mywyd. A nawr, rwy'n gweld fod y bedd yn wag – mae rhywun wedi mynd â chorff Iesu. Rwyf mor drist!

Iesu: Beth sy'n bod?

Mair: Ti sy'n edrych ar ôl yr ardd yma? Ble wyt ti wedi rhoi fy ffrind, Iesu?

Iesu: Mair, 'dwyt ti ddim yn fy adnabod i?

Mair: Iesu? Iesu? Rwyf ti'n fyw! Mae hyn yn ffantastig!

Iesu: Ie, Mair, fi sydd yma yn wir. Dos i ddweud wrth fy holl ffrindiau fy mod wedi dod yn ôl yn fyw, yn union fel y dywedais i wrthyich. Dywed wrthynt y byddaf yn eu gweld yn fuan.

Mair: Wrth gwrs, Iesu. Mi af ar unwaith. Bydd pawb mor falch i glywed y newyddion. Dyma'r diwrnod hapusaf erioed.




AMSER CREFFT

1. Creu dail palmwydd/murlun


Rhowch ddarn o bapur gwyrdd, maint A4, gydag amlinelliad deilen arno i bob plentyn (gweler Atodiad 2). Gadewch i'r plant dorri o amgylch yr amlinelliad ac ar hyd y llinellau i greu'r ddeilen. Gludwch y ddeilen gyda thâp selo i stribed tenau o gerdyn trwchus neu hen bensel – dyma'r coesyn. Rhowch siâp côt i bob plentyn i'w liwio a'i dorri allan. Ar ôl defnyddio'r rhain yn ystod amser stori, cewch eu gludo o amgylch yr asyn (a ddefnyddiwyd yn ystod amser chwarae) i greu murlun (tynnwch goesau'r dail yn gyntaf). Ychwanegwch y geiriau "Hosanna, mae'r Brenin yn dod" wedi'u hysgrifennu gyda WordArt, neu mewn llythrennau bras ar bapur lliw.

2. Addurno bisgedi/cacennau bach



Dangoswch "hot cross bun" i'r plant gan esbonio ein bod yn bwyta'r rhain adeg y Pasg. Sylwch ar y patrwm ac esboniwch bod siâp y groes yn ein hatgoffa fod Iesu wedi marw ar groesbren. Gadewch i'r plant addurno bisgedi plaen gydag eisin gan gopio'r patrwm. Efallai yr hoffech baratoi cacennau bach iddynt addurno. Mae'n syniad cael dwy fisged i bob plentyn – un i'w bwyta a'r llall i fynd adref mewn bag bach.

3. Plannu hadau



Casglwch blisgyn wŷ gwag i bob plentyn. Byddwch angen gwllân cotwm, hadau berwr ac ychydig o ddŵr. Gadewch i'r plant addurno'r plisgyn yn ofalus gyda pinnau ffelt. Rhowch wllân cotwm tamp ymhob un. Gadewch i'r plant roi ychydig o hadau berwr ar ben y gwllân cotwm. Esboniwch wrth i chi weithio bod yr hadau yn edrych fel eu bod wedi marw, ond gobeithiwn eu gweld yn tyfu'n fuan. Mae bywyd tu mewn i bob hedyn a byddwn yn gweld y bywyd newydd yn tyfu. Roedd Iesu wedi marw ond daeth yn ôl yn fyw ac roedd llawer o ffrindiau Iesu wedi'i weld wedyn.

4. Defnyddiwch un o'r taflenni gwaith



Oed Meithrin – 5 Iesu'r Brenin: Marc 14-16

AMSER CANU A GWEDDÏO

Cân

(I'r dôn "Troi ein dwylo.")

Gwnewch symudiadau syml i gyd-fynd â'r geiriau.

1. Ble mae Iesu? Ble mae Iesu?
Dewch i chwilio gyda Mair.
2. Yn y bedd? Yn y bedd?
Dydy Iesu ddim fan hyn.
3. Yn yr ardd? Yn yr ardd?
Pwy sy'n siarad gyda Mair?
4. Dyma Iesu, dyma Iesu.
Nôl yn fyw, hwrê, hwrê.

Rhigwm

Mae'r plant yn ateb ac yn clapio i'r curiad,
ar ôl pob brawddeg,

"Ar y ffordd i Jerwsalem."

Ble mae Iesu a'i ffrindiau yn mynd?...

Mae Iesu yn marchog asyn...

Edrychwch ar y bobl yn gweiddi
"Hosanna!"...

Maen nhw'n chwifio dail ac yn taflu cotiau...

Ble mae'r Brenin Iesu'n mynd?

Gweddi

Defnyddiwch yr wyneb trist o Amser Stori.
Gweddiwch dros y plant, un ar y tro, gan
ofyn i Iesu edrych ar eu holau os byddant
yn drist, a'u helpu i deimlo'n well.
Gweddiwch dros y bobl y mae'r plant yn
eu hadnabod ac sydd yn drist, efallai
oherwydd eu bod yn sâl.

AMSERLEN

Wythnos 1

Amser Chwarae 1

Amser Crefft 1

Amser Stori 1

Rhigwm

Wythnos 2

Amser Chwarae 2/4

Amser Stori 2

Amser Crefft 2

Gweddi

Wythnos 3

Amser Chwarae 3

Amser Stori 3

Amser Crefft 3

Cân





Hosanna!






Ar Sul y Blodau aeth Iesu i Jerwsalem gan farchog asyn. Roedd y bobl yn gweiddi "Hosanna," yn chwifio dail ac yn gosod eu cotiau ar lawr.



Yn fyw neu yn farw?


Edrychwch ar y lluniau. Lliwiwch y pethau sy'n fyw yn wyrdd.
Lliwiwch y pethau sy'n farw yn goch.



Adeg y Pasg rydym yn cofio fod Iesu wedi marw a daeth yn ôl yn fyw!



Y diwrnod mwyaf hapus!



Hwre! Mae Iesu'n fyw.



Oed 6 - 11 Iesu'r Brenin: Marc 14-16



Amcanion:

- ❖ I gyflwyno prif ddigwyddiadau hanes y Pasg
- ❖ I ystyried gwaith Iesu, ein Gwaredwr
- ❖ I lawenhau yng ngwyrth yr Atgyfodiad

Adnod i'r gyfres:

"Daeth Crist Iesu i'r byd i achub pechaduriaid." 1 *Timotheus* 1:15

Cân i'r gyfres:

"Pan rwy'n cofio" - Tyrdd i Ddathlu.

FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

1. Cwis "Beth ydw i?"

Rhannwch y plant i dimoedd ar gyfer y cwis canlynol. Esboniwch eich bod yn mynd i roi cliwiau iddynt er mwyn iddynt ddyfalu modd benodol o drafnidiaeth. Gofynnwch i un tîm ateb ar y tro. Rhowch un cliw ar y tro. Os ydynt yn dyfalu yn gywir pa fodd o drafnidiaeth sy'n cael ei disgrifio ar ôl clywed y cliw cyntaf yn unig, byddant yn ennill 10 pwynt; ar ôl clywed yr ail gliw - 5 pwynt; ar ôl y trydydd cliw - 3 pwynt.

- ❖ Cerbyd pedair olwyn ydwyf
Rwy'n ddefnyddiol iawn ar fferm
Olwynion maint gwahanol sydd gennyf.

TRACTOR

- ❖ Cerbyd argyfwng ydwyf
Mae gennyf gorn a goleuadau sy'n fflachio
Lliw coch ydwyf.

INJAN DÂN

- ❖ Dwy olwyn sydd gennyf
Mae'n rhaid gwisgo helmed
Gall dau berson fy nefnyddio yr un pryd.

TANDEM

- ❖ Rwyf yn cludo llawer o bobl ar y tro
Mae'n rhaid prynu tocyn i'm defnyddio
Nid wyf yn defnyddio ffyrdd.

TRÊN


- ❖ Byddwch yn gweld y môr wrth fy nefnyddio i
Efallai hoffech gysgu arnaf
Gall ceir a lorïau deithio arnaf hefyd.

FFERI

- ❖ Does dim olwynion gennyf
Rwyf angen cyfrwy
Cewch fy ngweld ar lan y môr.

MUL

Gofynnwch i'r plant a ydynt erioed wedi marchogaeth mul neu geffyl? Ydyn nhw'n cofio'r hanes am Iesu yn marchogaeth asyn? Dyma'r hanes y byddwn ni'n ei glywed heddiw.





FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

2. Rhowch gynffon i'r asyn

Defnyddiwch lun yr asyn (Atodiad 1), wedi'i chwyddo. Byddwch angen cynffon, darn o 'blutac' i'w lynu, a sgarff yn fwgwd. Gadewch i bob plentyn gael tro i osod y gynffon ar yr asyn. Ar ôl i bawb gael eu tro, gofynnwch i'r plant a ydynt wedi gweld asyn neu efallai wedi bod ar gefn mul ar lân y môr. Esboniwch fod ein stori wir o'r Beibl heddiw yn sôn am sut y bu Iesu Grist yn marchogaeth asyn un tro.

3. Gêm "Mewn perygl!"

Chwaraewch y gêm ganlynol neu'r gêm "Achub" o werslyfr Moses. Ar ôl y gêm, trafodwch y bobl sy'n ein helpu ni mewn sefyllfaoedd peryglus, e.e. dynion tân, pobl y badau achub, doctoriaid, timoedd achub mynydd, achubwyr y pwll nofio.

Rhannwch y plant i dimoedd. Ras yn erbyn y cloc yw hon - byddwch angen amseru pob tîm i weld pa dîm sy'n gorffen gyflymaf. Dywedwch wrth y plant eu bod mewn lle peryglus - gadewch i'r plant awgrymu ryw sefyllfa. Mae'n rhaid i un aelod o'r tîm gludo gweddill y tîm i fan diogel. Mae'r "Achubwr" yn sefyll ar un ochr yr ystafell - dyma'r man diogel - ac mae gweddill y tîm yn sefyll gyferbyn ag ef/hi, ochr arall yr ystafell. Rhyngddynt, mae darnau o bapur/cerdyn, tua maint A4, fel cerrig camu. Mae'r "Achubwr" yn camu ar y cerrig i gyrraedd yr ochr draw, Mae'n gafael yn llaw/garddwn un aelod a'i arwain yn ôl dros y cerrig i'r man diogel (gall yr "Achubwr" gario'i dîm ar ei gefn os teimlwch fod hyn yn dderbyniol). Os bydd eu traed yn cyffwrdd y llawr, rhaid cychwyn y daith eto. Ar ôl cludo'r person cyntaf, mae'r "achubwr" yn hebrwng aelod arall nes bod pawb wedi cyrraedd y man diogel. Yr enillwyr ydi'r tîm cyflymaf.

Esboniwch y byddwn yn trafod marwolaeth Iesu heddiw ac yn ceisio deall bod y Beibl

yn dweud fod Iesu wedi marw er mwyn ein Hachub ni.

4. Helfa wyau

Byddwch angen y lluniau o Atodiad 3, pob un wedi'u torri yn ddau ddarn, a'u cuddio cyn i'r plant cyrraedd.

Gofynnwch i'r plant a ydynt wedi derbyn wyau Pasg a thrafodwch pam rydym yn cael wyau Pasg (symbol o fywyd newydd ydynt, yn ein hatgoffa o atgyfodiad Iesu Grist).

Esboniwch eich bod wedi cuddio darnau o wyau a gofynnwch i'r plant i ddod o hyd iddynt - un ar y tro neu bawb gyda'i gilydd. Rhowch y darnau at ei gilydd ac edrychwch ar y lluniau sydd ar bob un, a'u trafod. Rhowch y lluniau yn eu trefn. Mae dau o'r lluniau yn berthnasol i'n stori heddiw - hanes Iesu yn atgyfodi o farw.

5. Wyt ti'n cofio?

Casglwch ugain eitem cyfarwydd a'u rhoi ar hambwrdd. Edrychwch ar yr eitemau, un ar y tro, gan ofyn cwestiynau i'r plant wrth fynd ymlaen, e.e. beth ydy pwrpas yr eitem yma? Gorchuddiwch yr eitemau gyda lliain. Gadewch i'r plant geisio cofio'r deg eitem. Rhowch gliwiau os oes angen. Ar ôl i chi gofio pob un, gorchuddiwch yr eitemau eto a chymerwch eitem oddi ar yr hambwrdd heb i'r plant ei weld. Tynnwch y lliain a gweld pwy sy'n gwybod beth sydd ar goll? Ailadroddwch sawl gwaith. Canmolwch y plant am eu bod wedi cofio mor dda. Esboniwch wrth y plant bod pobl trwy'r byd yn cofio rhywun arbennig yr adeg yma o'r flwyddyn. Adeg y Pasg rydym yn cofio bod Iesu Grist wedi marw ar y groes a dod yn ôl yn fyw. Mae'n bwysig inni gofio hyn oherwydd mae'r Beibl yn dweud fod Iesu wedi marw er mwyn i ni gael maddeuant a bywyd newydd.



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio un o'r llyfrau yn y rhestr 'Adnoddau' ac wedyn dewiswch un o'r syniadau canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch un o'r syniadau canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

1. "Gŵr y Gwyrthiau"

Defnyddiwch y ffilm "Gŵr y Gwyrthiau." Gall hon fod yn ffordd effeithiol iawn i gyflwyno'r hanes sydd mor gyfarwydd i lawer. Dangoswch y rhannau perthnasol dros dair wythnos.

- ❖ Sul y Blodau
- ❖ Y Croeshoeliad
- ❖ Yr Atgyfodiad

Cofiwch gymhwyso'r stori hefyd, mae awgrymiadau i'w cael isod.

2. Sul y Blodau: Ilenwch y bylchau.

Darllenwch hanes Sul y Blodau i'r plant o'r Beibl neu o lyfr stori, neu gwyliwch fideo addas (gweler y dudalen Adnoddau). Defnyddiwch un o'r Taflenni gwaith "Sul y Blodau" (dewiswch y daflen sydd fwyaf addas) i adolygu'r hanes gyda'r plant.

Cymhwyso'r stori

Trafodwch ac atebwch y cwestiynau sydd ar y daflen. Pwysleiswch fod Iesu yn mynd i Jerwsalem am reswm arbennig. Roedd e'n gwybod ei fod yn mynd i farw yn Jerwsalem. Dyma oedd cynllun Duw - i ddod â maddeuant a bywyd newydd i bawb sy'n credu.

3. Y Croeshoeliad: Atgofion

Wedi'i seilio ar Mathew 27

Casglwch yr eitemau canlynol: darn o ddefnydd coch, coron o ddrain (brigau wedi eu plygu i greu cylch), "gwin" (diod cyrens duon), hoelion, dîs, darn o gerdyn brown

gyda'r geiriau "Brenin yr Iddewon", dwy groes bren (brigau wedi'u clymu i ffurfio siâp croes), powlen o finegr, darn o ddefnydd hawdd i'w rwygo, darn o ddefnydd gwyn, carreg.

Os defnyddir y syniad hwn gyda grŵp o blant hŷn, darllenwch yr adnod berthnasol o Mathew 27.

Adroddwch hanes y Croeshoeliad gan ddefnyddio'r eitemau (a'r adnodau os yn berthnasol) wrth fynd ymlaen. Mae'n bwysig cynnwys geiriau ac ymddygiad gwahanol bobl hefyd, h.y. geiriau'r milwyr (ad.27-31); geiriau'r gwylwyr wrth y groes (ad.39-44); geiriau'r canwriad (ad.54).

Cymhwyso'r stori

Byddwch angen Atodiad 5 (wedi torri allan), a'r geiriau "DUW", "PECHOD" a "PAWB" wedi'i hysgrifennu ar ddarnau o bapur maint A4. Gofynnwch i'r plant pam fod Iesu wedi marw?

Rhowch y gair "DUW" i lawr ar y bwrdd neu ar y llawr. Esboniwch fod Duw yn berffaith, ac roedd Iesu yn berffaith – 'doedd o erioed wedi gwneud unrhyw beth drwg. Rhowch y gair "PECHOD" i lawr wrth ymyl "DUW." Rydyn ni'n wahanol iawn i Dduw oherwydd rydyn' ni'n pechu drwy'r amser. Esboniwch ystyr y gair 'pechod' fel unrhyw beth rydym yn ei wneud, ei feddwl neu'n ei ddweud, sydd yn erbyn cyfraith Duw. Mae Duw yn gweld ein meddyliau hefyd, mae'n gwybod y pethau drwg rydym yn eu meddwl, eu dweud neu yn eu gwneud. Rhowch y gair "PAWB" i lawr. Mae'r Beibl yn ein dysgu bod pawb yn bechadur, ac mae ein pechod yn creu bwlch rhyngom ni â Duw. Dydy Duw ddim yn gallu cael perthynas â ni nes bod ein pechod wedi cael ei dynnu i ffwrdd. Rhowch eiriau'r adnod i lawr dros y geiriau eraill fel cerrig camu



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

mewn siâp croes. Darllenwch yr adnod sawl gwaith gyda'ch gilydd. Wedyn, tynnwch rai o'r geiriau oddi yno i weld a yw'r plant yn ei chofio. Rhowch y geiriau yn ôl wrth ichi barhau gyda'r cymhwys.

Cymerodd Iesu ein pechodau ni arno'i hun pan fu farw ar y groes. Os ydym yn gofyn iddo faddau ein pechodau, mae'n barod i wneud hynny. Mae Iesu yn gallu cymryd ein pechodau i ffwrdd fel ein bod yn gallu dod yn ffrindiau gyda Duw. Dyma pam fu rhaid i Iesu farw ar y groes. Dim ond Iesu sy'n gallu cymryd ein pechodau i ffwrdd a maddau i ni. Mae wedi gwneud hyn oherwydd ei fod yn ein caru ni gymaint ac mae Duw eisiau i ni ei adnabod Ef.

Byddai'n dda gweddïo gyda'r plant nawr. Defnyddiwch syniad 1.

4. Yr Atgyfodiad: trwy lygaid Mair

Defnyddiwch lun Mair (Atodiad 2), wedi'i chwyddo a'i liwio, os yn bosib. Byddwch angen saith swigen siarad gwag i ysgrifennu geiriau Mair ynddynt. Esboniwch fod Mair yn un o ffrindiau pennaf Iesu. Roedd Mair wedi bod wrth y groes gyda rhai merched eraill. Gofynnwch i'r plant sut maen nhw'n tybio fod Mair yn teimlo o weld ei ffrind pennaf yn marw? Esboniwch fod gan y stori hon ddiweddglo hapus iawn, iawn a chawn ddarganfod beth ddigwyddodd nesaf trwy lygaid Mair.

Edrychwch ar y cyfeirnodau canlynol, un ar y tro:

Marc 16:1; Marc 16:3; Marc 16:4; Marc 16:5; Ioan 20:14-16; Ioan 20:18.

Gall y plant edrych ar yr adnod i weld beth wnaeth Mair, beth ddywedodd Mair neu beth

a welodd. Ysgrifennwch atebion y plant yn y swigod. Anogwch y plant i ddyfalu sut fyddai Mair wedi teimlo neu beth oedd hi'n ei feddwl. Gosodwch y swigod o amgylch llun Mair gan drafod eu cynnwys.

Gyda grŵp o blant iau, gallwch ddefnyddio Atodiad 6. Gofynnwch i'r plant ddarllen y swigod. Esboniwch bob un cyn eu gosod o amgylch Mair.

Cymhwyso'r stori

Dangoswch wŷ Pasg i'r plant gan ofyn iddynt a ydyn nhw'n cofio arwyddocâd yr wyau? Mae'r wŷ yn symbol o fywyd newydd. Cafodd Iesu fywyd newydd gan ei Dad, Duw.

Esboniwch wrth y plant fod Duw wedi dod â'i Fab yn ôl yn fyw i ddangos bod Iesu wedi delio gyda'n pechod. Atgoffwch y plant o gymhwysiad stori'r wythnos diwethaf gan greu'r darlun eto (yr adnod fel cerrig camu). Mae Duw yn fwy pwerus na marwolaeth hyd yn oed. Mae'r ffaith fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw yn golygu ei fod ef yn gallu rhoi bywyd newydd inni - bywyd heb ein pechod.

Rhowch bapur siâp wŷ bach i bawb. Gofynnwch iddynt ysgrifennu rhywbeth y maent wedi ei ddysgu o'r hanes heddiw. Gludwch yr wyau bach ar siâp basged gyda'r adnod wedi'i hysgrifennu arni'n barod. Darllenwch yr adnod gyda'ch gilydd.

Byddai'n braf cael wŷ bach i'r plant i fynd adref gyda nhw neu i'w fwyta yn y dosbarth. Wrth i'r plant ddiolch i chi am yr wŷ, cewch ymateb drwy ddweud, "Diolch bod Iesu'n fyw."

Defnyddiwch syniad 2 i arwain eich gweddïau.




GWAITH CREFFT



Sul y Blodau

1. Defnyddiwch dempled asyn - Atodiad 1. Lliwiwch/peintiwch/gludio ddarnau o ddefnydd arno.
2. Defnyddiwch ddarnau o ddefnydd, gwllân, creonau i greu gwynebau ar blatiau papur.
3. I'r dail palmwydd. Gadewch i'r plant dynnu llinell o amgylch eu dwylo yn wyrdd, a'u lliwio, a'u torri allan, a'u ludo at ei gilydd mewn siâp deilen.
4. Gosodwch y darnau ar y cefndir fel yn y llun uchod.



Y Croeshoeliad

1. Defnyddiwch baent ddu, llwyd a gwyn i'r awyr. Defnyddiwch sbwng i osod y paent. Paentiwch y bryn yn wyrdd tywyll.
2. Ar ôl i'r awyr sychu gosodwch ddwy groes fach ddu ar bob ochr.
3. Tynnwch lun un groes fawr ar gerdyn a'i beintio. Torrwch allan ddarnau o gerdyn sydd wedi'u blygu a'u ludo tu ôl i'r groes, fel bydd y groes fawr yn 2D. Gosodwch y groes ar y cefndir.



Yr Atgyfodiad

1. Peintiwch gylch du fel bedd gwag.
2. Torrwch allan gylch yr un maint. Gludwch ddarnau mawr o bapur lwyd sydd wedi'u crensiar ar y cylch i greu'r garreg.
3. Defnyddiwch dempled Mair - Atodiad 2. Lliwiwch/peintiwch neu gludiwch ddarnau o ddefnydd/papur arno.
4. Tynnwch lun angel - copi wch Taflen Meithrin. Lliwiwch/peintiwch/gludio defnydd arno. Rhowch wallt melyn iddo a sgleiniau ar yr adenydd.
5. Llenwch yr ardd gyda blodau papur sidan.



GWEITHGAREDD YCHWANEGOL

Cwis

Defnyddiwch y daflen gwis. Byddwch angen chwe siâp wŷ gyda rhifau gwahanol ar eu cefn. Trowch y rhain ben i waered ar y bwrdd o'ch blaen. Rhannwch y grŵp i barau/timoedd. Gofynnwch gwestiwn i'r timoedd yn eu tro. Os byddant yn cynnig ateb cywir, cânt droi un o'r wyau - dyma ydy sgôr y tîm. Y tîm gyda'r sgôr uchaf sy'n ennill.

Gemau

1. Rholio'r garreg

Mae'r plant yn sefyll mewn cylch ac yn taflu pêl feddal at ei gilydd - dyma'r garreg a gafodd ei symud o geg bedd Iesu. Does dim angen taflu'r bêl o amgylch y cylch. Mae'r person sydd yn taflu'r bêl yn galw, "Rwy'n rholio'r garreg i ..." gan ddweud enw'r person maent yn bwriadu taflu'r bêl atynt. Os oes rhywun yn gollwng y bêl, maent yn rhedeg o amgylch y cylch ac yn ôl i'w lle.

2. Gwir neu gau

Paratowch nifer o osodiadau, rhai yn wir, rhai yn gelwydd. Mae'r plant yn sefyll mewn llinell yng nghanol yr ystafell. Darllenwch y gosodiadau fesul un. Ar ôl clywed un o'r gosodiadau, mae'n rhaid i'r plant benderfynu a yw'n wir neu'n gau. Os yw'n wir, dylai'r plant redeg at y wal ar yr ochr dde ac yn ôl. Os yw'n gelwydd, mae'r plant yn rhedeg at y wal ar yr ochr chwith ac yn ôl. Os ydyn nhw'n gwneud dewis anghywir, maent allan o'r gêm ac yn gorfod eistedd yn y "bin cosb." O dro i dro, galwch "Y groes." Mae pawb sydd yn y "bin cosb" yn cael ail-ymuno yn y gêm. Ar ôl chwarae, cewch esbonio fod Iesu wedi marw ar y groes i'n hachub ni o'r "bin cosb." Ac mae'r ffaith fod Duw wedi atgyfodi Iesu o farw, yn brawf fod Duw yn fodlon fod Iesu wedi marw yn ein lle.

Taflenni gwaith

GWEDDIAU

1. Croes hardd

Gofynnwch i'r plant sut maen nhw'n teimlo i feddwl bod Duw yn gwybod popeth amdanom?

Sut maen nhw'n teimlo i feddwl bod Iesu wedi marw ar y groes fel ein bod yn gallu cael maddeuant?

Rhowch siâp blodyn i bawb gan ofyn iddynt ysgrifennu gweddi. Gludwch y blodau ar ddarn mawr o gerdyn siâp croes. Trafodwch y ffaith, er bod Iesu wedi gorfod marw, a bod hyn yn drist iawn, rydym yn falch mai nid dyma ydy diwedd y stori a bod croes Iesu Grist yn golygu rhywbeth anhygoel a llawen.

Gweddiwch dros y plant i orffen, gan ddiolch i Iesu Grist am farw drosom a gofyn am gymorth i ddeall beth glywsom heddiw.

2. Basged o weddïau

Naill ai,

Defnyddiwch y poster a wnaethoch yn "Cyflwyno'r stori 4." Gadewch i'r plant ddarllen yr hyn a ysgrifennwyd. Ar ôl pob cyfraniad, gall pawb ddweud gyda'i gilydd, "Diolch Iesu."

Neu,

Dilynwch y cyfarwyddiadau o "Cymhwyso'r stori 4" i greu basged o weddïau." Gadewch i'r plant ddarllen yr hyn a ysgrifennwyd. Ar ôl pob cyfraniad, gall pawb ddweud gyda'i gilydd, "Diolch Iesu."



DRAMA

Dyma dri syniad. Un ar gyfer cyflwyno hanes Sul y Blodau, un ar gyfer cyflwyno hanes y Croeshoeliad a chân ar gyfer cyflwyno hanes a llawenydd yr Atgyfodiad.

1. Sul y Blodau - Sgets
2. Y Swper Olaf – Darlleniad gydag ystumiau
3. Cân – Atodiad 4.

Cân – Y diwrnod mwyaf hapus erioed

1. Dyma ddiwrnod trist,
Y tristaf fu erioed,
Fe gymron' nhw fy ffrind
Unig Fab Duw.
Ei hoelio ar y groes,
Gan wyllo Ef yn marw.
Cynllun gwych fy Nuw – prawf o'i gariad.

2. Dyma ddiwrnod hapus,
Yr hapusaf fu erioed,
Pan edrychais am fy ffrind
Unig Fab Duw.
Roedd y bedd yn wag,
roedd Iesu 'nawr yn fyw
Cynllun gwych fy Nuw – prawf o'i gariad.


Corws

Iesu – rwy'ti'n fyw!
Iesu – yn fyw byth bythoedd!
Iesu – ein Gwaredwr,
Iesu – fe'th folwn di.

AMSERLEN

Amserlen

1. Sul y Blodau: Cyflwyno'r thema 1 a 2, Cyflwyno'r stori 1 a 2, Cwis, Taflen waith, Crefft, Drama (Sgets).
2. Y Croeshoeliad: Cyflwyno'r thema 3, Cyflwyno'r stori 1 a 3, Gêm (Gwir neu gau), Gweddi 1, Crefft, Drama (Darlleniad gyda symudiadau).
3. Yr Atgyfodiad: Cyflwyno'r thema 4 a 5, Cyflwyno'r stori 4, Gêm 1, Gweddi 2, Crefft, Dysgu'r gân newydd (Atodiad 4).



Sgets Sul y Blodau

Mae criw o lanhawyr yn cyfarfod am ddiwrnod annisgwyl o waith yn clirio strydoedd Jerwsalem. Mae ganddynt fagiau du, ysgubau ayyb.

Glanhâwr: Bore da, sut mae pawb y bore 'ma? Amos, ti'n edrych braidd yn flinedig – ti'n iawn?

Glanhâwr: Roeddwn i allan neithiwr, yn gwylio'r sêr tan yn hwyr. Doeddwn i ddim yn disgwyl gorfod gweithio heddiw.

Glanhâwr: Na minnau chwaith. Daeth y "boss" yn hwyr neithiwr i ddweud 'job ar frys' – rhywbeth am fulod a sbwriel ymhob man. 'Ta beth, gwell i ni gychwyn.

Glanhâwr: Beth yn y byd sydd wedi digwydd yn fama? Be' di'r holl ddail ar hyd y ffordd? Oedd hi'n wyntog ddoe?

Glanhâwr: A beth yw hyn? Baw asyn? O, na, dw' i ddim awydd clirio hwnna!

Glanhâwr: Mae rhywun wedi gadael côt fan hyn. Ac mae un arall draw fan'cw.

Glanhâwr: Dyma lanast go iawn. Dw i ddim wedi gweld llanast fel hyn ers parti 'Dolig Capel... llynedd!

Daw dynes i'r golwg gyda swp o blant o'i chwmpas.

Dynes: O, esgusodwch fi, oes rhywun wedi gweld côt frown yn rhywle? Mi wnes ei gadael hi yma ddoe.

Glanhâwr: Un o'r rhain Mrs? Daethom o hyd i lawer o gotiau ar hyd y lle 'ma heddiw.

Dynes: Ie, dyma hi. Diolch yn fawr.

Glanhâwr: Os ti ddim yn meindio imi ofyn, beth yn union oedd yn mynd ymlaen yma ddoe. *I mean*, yr holl ddail ar y llawr, y cotiau, a'r pŵ mul?

Dynes: Wel, ble wna 'i gychwyn? Roedd hi mor gynhyrfus! Adre' oeddwn i, a gwelais fy nghymdogion yn pasio'r ffenestr. Es i allan i weld beth oedd yn mynd ymlaen. Roedd pawb yn brysio allan o'r ddinas. Clywais rhywun yn dweud fod Iesu ar y ffordd. Felly dyma fi'n gweiddi ar y plant ac i ffwrdd â ni gyda phawb arall.

Plentyn: Roeddwn i yno hefyd, a fy ffrindiau.

Plentyn: Mi welais i Iesu!

Plentyn: Roedd ar gefn asyn.

Glanhâwr: Mae hynny'n esbonio'r baw asyn!

Glanhâwr: Ond beth am y dail?

Glanhâwr: Beth am y cotiau?

Plentyn: Wel, roedd pawb wedi cynhyrfu wrth weld Iesu.

Plentyn: Mi dorrais i ganghennau i chwifio.

Plentyn: Roedd rhai pobl yn rhoi eu cotiau ar y llawr o flaen yr asyn.

Glanhâwr: Pam fod angen y fath helynt wrth groesawu Iesu?

Glanhâwr: Clywais rywun yn deud mai ef yw'r Meseia.

Glanhâwr: Y Meseia? Yr un mae Duw wedi ei ddewis?

Glanhâwr: Gallaf weld yn awr pam fod pawb wedi cynhyrfu.

Glanhâwr: Popeth yn iawn, ond oedd angen gwneud y fath lanast?

Glanhâwr: A'r asyn.....?

Darlleniad gyda symudiadau

Darllenwch yr hanes isod. Dywedwch wrth y plant i wrando yn ofalus. Esboniwch fod Iesu a'r disgyblion yn mynd i gael swper arbennig iawn. Ar ôl y darlleniad cyntaf, gofynnwch i'r plant ymuno drwy wneud yr ystumiau sy'n cyd-fynd â'r gair.

Disgyblion = dangos 12 o fysedd (h.y. 10, wedyn 2): Bwyta = ystum bwyta: Swper = rhwbio bol a dweud "iym, iym": Bara = arogl'r awyr: Yfed = meimio yfed gyda chwpan.

Marc 14

Y Swper Olaf

¹² Ar ddiwrnod cyntaf Gŵyl y Bara Croyw (h.y. y diwrnod pan oedd hi'n draddodiad i ladd oen y Pasg), gofynnodd disgyblion Iesu iddo, "Ble rwyd ti am fwyta swper y Pasg? - i ni fynd yno i'w baratoi."

¹³ Felly anfonodd ddau o'i ddisgyblion i Jerwsalem, a dweud wrthyn nhw, "Wrth fynd i mewn i'r ddinas, bydd dyn yn dod i'ch cyfarfod yn cario llestr dŵr. Ewch ar ei ôl, ¹⁴ a gofyn i berchennog y tŷ y bydd yn mynd iddo, 'Mae'r athro eisiau gwybod ble mae'r ystafell iddo ddathlu'r Pasg gyda'i ddisgyblion?' ¹⁵ Bydd yn mynd â chi i ystafell fawr i fyny'r grisiau wedi ei pharatoi'n barod. Gwnewch swper i ni yno."

¹⁶ Felly, i ffwrdd â'r disgyblion i'r ddinas, a digwyddodd popeth yn union fel roedd Iesu wedi dweud. Felly dyma nhw'n paratoi swper y Pasg yno.

¹⁷ Yn gynnar y noson honno, aeth Iesu yno gyda'r deuddeg disgybl. ¹⁸ Tra roedden nhw'n bwyta, dyma Iesu'n dweud, "Wir i chi, mae un ohonoch chi'n mynd i'm bradychu i. Un ohonoch chi sy'n bwyta gyda mi yma."

¹⁹ Dyma nhw'n mynd yn drist iawn, a dweud un ar ôl y llall, "Dim fi ydy'r un, nage?"

²⁰ "Un ohonoch chi'r deuddeg," meddai Iesu, "Un ohonoch chi sy'n bwyta yma, ac yn trochi ei fara yn y ddysgl saws gyda mi. ²¹ Rhaid i mi, Mab y Dyn, farw yn union fel mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud. Ond gwae'r un sy'n mynd i fy mradychu i! Byddai'n well arno petai erioed wedi cael ei eni!"

²² Tra'r oedden nhw'n bwyta dyma Iesu'n cymryd torth, ac yna, ar ôl adrodd gweddi o ddiolch, ei thorri a'i rhannu i'w ddisgyblion. "Cymerwch y bara yma," meddai, "dyma fy nghorff i."

²³ Yna cododd y cwpan, adrodd y weddi o ddiolch eto a'i basio iddyn nhw, a dyma nhw i gyd yn yfed ohono.

²⁴ "Dyma fy ngwaed," meddai " - sy'n selio ymrwymiad Duw i'w bobl. Mae'n cael ei dywallt ar ran llawer o bobl. ²⁵ Credwch chi fi, fydda i ddim yn yfed gwin eto, nes daw'r diwrnod hwnnw pan fydda i'n yfed o'r newydd pan fydd Duw yn teyrnasu."

²⁶ Wedyn ar ôl canu emyn, dyma nhw'n mynd allan i Fynydd yr Olewydd.

Esboniwch wrth y plant fod Iesu yn gwybod ei fod yn mynd i farw'r diwrnod canlynol ac roedd am baratoi ei ffrindiau. Mae'r bara a'r gwin yn symbolau o fywyd Iesu.

Ers marwolaeth Iesu, mae Cristnogion yn dathlu Swper yr Arglwydd. Mae nhw'n cael diod o win a thamaid o fara i'w hatgoffa am farwolaeth Iesu. Mae'n cyfle i gofio ac i ddiolch i Iesu am farw drosom.

Cymerodd Iesu ein pechodau ni arno ei hun pan fu farw ar y groes. Os ydym yn gofyn iddo faddau ein pechodau, mae'n barod i wneud hynny. Mae Iesu yn gallu cymryd ein pechodau i ffwrdd fel ein bod yn gallu dod yn ffrindiau gyda Duw. Dyma pam fu'n rhaid i Iesu farw ar y groes. Dim ond Iesu sy'n gallu cymryd ein pechodau i ffwrdd a maddau i ni. Mae wedi gwneud hyn oherwydd ei fod yn ein caru ni gymaint ac mae Duw eisiau i ni ei adnabod Ef.

Byddai'n syniad da i weddio gyda'r plant wrth orffen y sesiwn. Gweler yr adran Gweddïau.



Taflen Gwis Iesu'r Brenin: Marc 14-16




1. Wedi i Iesu farw lle rhoddwyd ei gorff i'w gladdu?

2. Sut oedd y disgyblion yn teimlo ar ôl i Iesu farw?

3. Ar ba ddydd aeth rhai o'r merched ag olew a sbeisys i'w rhoi ar gorff Iesu?

4. Beth welodd y merched wrth ddod at yr ogof?



5. Beth ddywedodd yr angylion wrthynt?


6. Am beth oedd dau ffrind i Iesu yn sôn ar eu taith adref i Emaus?

7. Beth ddywedodd y dyn oedd yn teithio gyda nhw am Iesu?

8. Beth sylweddolodd y ddau pan gymerodd y dyn y bara a'i rannu?

9. Pwy ddaeth at y disgyblion pan oeddent yn trafod yr hanesion am bobl yn gweld Iesu'n fyw?

10. Pa ddisgybl oedd heb weld Iesu ac ddim am gredu nes iddo weld drosto'i hun?




11. Wrth ba ddisgybl dywedodd Iesu fod ganddo waith arbennig ar ei gyfer?

12. Pan aeth Iesu'n ôl i'r nefoedd beth oedd ei orchymyn i'r disgyblion?




1. Mewn ogof mewn gardd. 2. Yn ofnus ac yn drist. 3. Dydd Sul. 4. Fod y garreg fawr dros ddrws y bedd wedi ei symud. 5. Fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw. 6. Am farwolaeth Iesu a'r hanesion ei fod wedi atgyfodi. 7. Eglurodd pam fod yn rhaid i Iesu farw. 8. Mai Iesu ei hun oedd o. 9. Iesu. 10. Thomas. 11. Pedr. 12. I ddweda wrth bawb amdano ef.

Atebion




S	K	T	L	L	W	X	T	P	J	Y	M	D	E	A	W	G	B	A	Y	S	W	S	Y	V
P	H	V	E	L	D	F	O	D	E	W	U	B	J	I	K	J	F	Z	J	Z	B	I	S	A
V	R	C	Z	A	E	O	X	N	Y	C	T	Y	W	Y	L	L	W	C	H	W	W	M	G	J
X	L	K	F	L	U	T	J	Z	R	W	A	C	A	U	B	A	O	Q	P	P	A	R	D	T
G	O	M	A	O	R	U	A	W	I	Q	S	P	G	C	U	W	M	M	L	I	Q	D	U	O
I	Z	F	A	M	J	P	N	I	C	A	R	R	Z	X	L	Y	O	B	R	K	M	Z	B	F
G	F	U	B	M	E	Z	G	U	Q	P	P	N	A	R	H	E	A	M	T	A	A	G	S	N
J	U	I	M	A	B	D	A	F	Y	D	D	L	J	M	M	C	A	U	H	C	E	W	F	P
R	R	F	E	B	O	L	P	A	Y	S	I	N	T	P	H	G	V	M	O	Q	N	V	M	U
J	E	R	W	S	A	L	E	M	K	H	E	X	T	U	D	M	E	J	H	J	G	C	H	Z
W	E	R	G	T	I	A	O	N	D	A	Z	L	B	A	I	I	C	M	F	U	P	O	S	P
P	M	F	I	W	E	E	K	O	J	O	Y	Y	L	I	U	G	R	A	J	P	T	P	H	A
Y	Y	X	L	L	O	Z	S	Y	P	U	H	E	Q	H	D	C	V	U	V	N	X	M	Y	N
X	T	U	I	E	Q	E	K	U	A	K	N	C	L	A	M	O	R	H	O	S	A	N	N	A
J	C	L	N	L	V	T	H	N	G	H	E	L	E	M	N	U	F	O	N	Q	K	J	N	V
U	A	N	I	X	H	J	N	A	C	R	E	N	B	P	E	R	O	Y	E	V	N	U	X	X
G	I	F	D	A	N	E	W	X	K	N	I	I	E	W	D	K	H	B	G	S	C	X	X	E
L	G	D	E	Q	H	H	H	P	A	L	X	S	R	I	O	Y	M	C	V	T	N	Z	G	U
T	E	Y	K	G	E	G	W	A	G	G	Z	Z	T	T	N	A	I	G	J	G	A	U	X	T
B	E	U	N	O	Y	L	Y	O	Q	I	O	D	C	R	M	I	P	T	E	M	L	D	S	L
A	H	A	F	F	B	L	D	J	Z	P	D	S	F	B	U	Q	O	V	B	K	Z	M	F	S
X	C	J	S	A	I	L	E	D	R	E	I	W	F	W	R	D	G	M	A	R	W	S	L	U
O	I	L	E	O	H	S	E	O	R	C	F	R	E	J	H	H	K	O	J	I	S	P	S	I
Y	N	I	H	W	N	F	H	C	J	G	U	D	A	O	H	H	Z	K	O	B	A	Q	K	H
I	P	A	R	A	D	W	Y	S	X	B	J	Q	X	S	L	C	M	G	K	C	D	K	S	X

Gwaed,
 Marw,
 Achub,
 Atgyfodi,
 Gwag,
 Eneinio,
 Arswyd,
 llen,
 ebol,
 Mab Dafydd,
 Croes,
 Iesu Grist,
 Pechod,
 Ofn,
 Mair Magdalen,
 Tywyllwch,
 Teml,
 Canghennau,
 Jerwsalem,
 Croeshoelio,
 Oen,
 Paradwys,
 Bedd,
 Galilea,
 Hosanna



Adeg y Pasg rydym yn cofio bod Iesu Grist wedi marw ar y groes a dod yn ôl yn fyw. Mae'n bwysig i ni gofio hyn oherwydd mae Iesu yn ein caru ni ac yn gofalu amdanom. Mae Iesu yn berson arbennig iawn. Lliwiwch y groes isod i fewn.

Ysgrifennwch weddi fer, i ddiolch i Iesu am farw drosom ac am Atgyfodi yn fyw ar y trydydd dydd.






S u l y B l o d a u

Ydych chi'n gwybod pa eiriau sydd ar goll? Mathew 21

¹Dyma nhw'n cyrraedd Bethffage yn ymyl J....., a dyma Iesu'n dweud wrth ddau ddisgybl, ²“Ewch i'r pentref acw sydd o'ch blaen chi, a gwelwch a..... wedi ei rhwymo a'i h..... gyda hi. Dewch â nhw yma i mi, ³ac os bydd rhywun yn ceisio'ch rhwystro, dwedwch, ‘Mae'r A..... eu hangen nhw; bydd yn eu hanfon yn ôl wedyn.’”
⁴Digwyddodd hyn er mwyn i beth ddwedodd Duw drwy ei broffwyd ddod yn wir: ⁵“*Dywed wrth bobl Seion, ‘Edrych! Mae dy f..... yn dod! Mae'n addfwyn ac yn marchogaeth ar a.....; ie, ar e..... asyn.’*”⁶I ffwrdd â'r d....., a gwneud yn union beth ddwedodd I..... wrthyn nhw. ⁷Pan ddaethon nhw â'r a..... a'i h..... yn ôl, dyma nhw'n taflu eu c..... arnyn nhw, a dyma Iesu'n eistedd ar gefn yr e.....
⁸Dechreuodd y dyrfa daflu eu c..... fel carped ar y ffordd o'i flaen, neu dorri d..... o'r coed a'u lledu ar y ffordd. ⁹Roedd y dyrfa y tu blaen a'r tu ôl iddo yn gweiddi, “Clod i Fab Dafydd!” “*Mae'r un sy'n dod i gynrychioli'r Arglwydd wedi ei fendithio'n fawr!*” “Clod i Dduw yn y nefoedd uchaf!” ¹⁰Roedd y ddinas gyfan mewn cynnwrf pan aeth I..... i mewn i J.....” “Pwy ydy hwn?” meddai rhai. ¹¹Ac roedd y dyrfa o'i gwmpas yn ateb, “I....., y proffwyd o N..... yn Galilea.”

Trafodwch y cwestiynau canlynol:

Pam dewisodd Iesu, mab Duw, asyn i gyrraedd Jerwsalem?
Beth waeddodd y bobl ar ôl Iesu?
Beth ydy ystyr y gair “Hosanna?”
Rhag pwy, neu beth, oedd Iesu am achub y bobl?





Sul y Blodau syna ninerB sule



tociau annasoh laid

HOSANNA!



I Drafod

Beth ydy ystyr y gair "Hosanna"?
Pam oedd y bobl yn gweiddi "Hosanna" ar ôl Iesu?
Pa fath o Frenin fydd Iesu?
Pam oedd Iesu am fynd i Jerwsalem?





Amcanion

- ❖ i sylweddoli fod bywyd a marwolaeth Iesu wedi ei ragordeinio – Mae e'n cyflwyno addewidion y gorffennol
- ❖ i ystyried fod bywyd a marwolaeth Iesu yn hanfodol i gynllun Duw o iachawdwriaeth – Mae e'n cyfarfod â'n anghenion presennol
- ❖ i sylweddoli mai atgyfodiad Iesu yw sylfaen gobaith y Cristion i'r dyfodol

Wythnos 1

Yr wythnos hon, byddwn yn ystyried digwyddiadau Sul y Palmwydd. Cawn weld sut mae proffwydoliaethau yr Hen Destament yn cael eu cyflawni, gan gynnwys ymateb y dorf i Iesu, sy'n cael ei gymeradwyo ganddynt yn Frenin.

Cyflwyno'r thema



Gallwch ddefnyddio'r naill syniad neu'r llall, neu'r ddau os bydd amser yn caniatáu.

Pwy sydd yna?

Byddwch angen 6 llun o bobl enwog. Torrwch y lluniau i dri strïbed. Dangoswch un darn o'r llun i'r grŵp gan ofyn iddynt ddyfalu pwy yw'r person. Dangoswch y darnau eraill o'r llun, un ar y tro, nes eu bod yn adnabod y person. Efallai yr hoffech rannu'r grŵp i dimoedd er mwyn cael cystadleuaeth.

Cafodd y bobl yn amser Iesu Grist drafferth i'w adnabod ef hefyd. Roedden nhw wedi cael llawer o gliwiau bod Iesu yn rhywun arbennig ac roedd Iesu wedi dweud wrthynt mai ef oedd Mab Duw. Ond, roedd hyd yn oed y disgyblion yn ddryslud ynglŷn â phwy oedd Iesu, er eu bod wedi treulio llawer o amser gyda Iesu yn gwrando arno ac yn dystion i'w weithredoedd. Yn y darlenniad heddiw mae'r bobl yn ei gyfarch fel Brenin, ond o fewn ychydig ddyddiau, maent eisïau iddo gael ei ladd.

Cwis – Beth ydw i?



Byddwch angen ysgrifennu'r geiriau canlynol ar ddarnau unigol o bapur: Tractor, Bws, Trên, Fferi, Tandem, Hofrennydd, Canŵ, Injan dân, Mul. Gofynnwch am wirfoddolwyr i gymryd eu tro i feimio'r gair sydd ar un o'r papurau. Eto, cewch rannu'r grŵp i dimoedd, gyda phob grŵp yn cymryd tro i ddyfalu. Rhowch y gair "mul" yn olaf. Yn y darlenniad heddiw byddwn yn clywed hanes Iesu yn marchogaeth asyn. Efallai bod hyn braidd yn od i ni ond cawn weld bod y digwyddiad hwn yn rhan bwysig o gynllun Duw.

Darllen a deall y stori

Darllenwch yr hanes o Mathew 21:1-11.

Wedyn, defnyddiwch y Darlenniad Dramatig o wers 6-11. Gwnewch ddigon o gopiâu i bawb, a gofynnwch i'r bobl ifanc ddarllen gwahanol rannau.

Cymhwyso

Byddwch angen copi o'r daflen waith i bawb. Esboniwch wrth y grŵp ein bod yn cael cliw yn y stori hon i bwy yw Iesu. Edrychwch ar y rhan gyntaf o'r daflen gyda'ch gilydd ac atebwch y cwestiynau.



Gwnewch y pwynt bod yr Hen Destament yn llawn o broffwydoliaethau am y Meseia. Gwnewch yn siŵr bod y bobl ifanc yn deall y gair "proffwydoliaeth." Roedd y rhain yn cael eu gwireddu ym mywyd a marwolaeth Iesu, fel y gwelsom yn hanes Iesu yn marchog i Jerwsalem.

Gofynnwch i'r bobl ifanc a ydyn nhw'n credu bod y dorf a oedd yn cyfarch Iesu yn deall yn iawn pwy ydoedd?

Beth amdanom ni? Ydyn ni'n credu mai Iesu yw'r Meseia, yr un roedd Duw wedi ei anfon i'r byd i fod yn Frenin ein bywyd? Ydyn ni wedi gofyn i Iesu fod yn Frenin yn ein calonnau?

Amser Gweddi

Rhowch siâp calon i bawb gan ofyn iddynt ysgrifennu gweddi arni neu rywbeth y maent wedi ei ddysgu o'r wers heddiw. Cewch ludo'r siapiau ar siâp calon fwy, neu gadewch i'r plant fynd â nhw adref.


neu

Gwrandewch ar yr emyn, "O'r nef y daeth Fab di-nam" – CD 'Grym Mawl' - Sain.

Edrychwch ar y geiriau ar yr un pryd. Caneuon Ffydd 276.

Ar y diwedd rhowch ddiolch i Dduw am anfon Iesu i'r byd er ein mwyn.

Gweithgarwch Ychwanegol



Rhowch gynffon i'r asyn

Defnyddiwch Atodiad 1, wedi'i chwyddo os yn bosibl.

Byddwch angen "cynffon" o bapur, 'blutac' i'w lynu a mwgwd (sgarff). Chwaraewch y gêm draddodiadol hon am dipyn o hwyl i orffen. Rhowch wobwr (wŷ Pasg bach?) i'r person agosaf i'r nod!

Wythnos 2

Yr wythnos hon byddwn yn ystyried digwyddiadau dydd Gwener y Groglith trwy eiriau'r Arglwydd Iesu ar y groes. Cyflwynwn y ffaith mai nid damwain oedd marwolaeth Iesu ond cyflawniad cynllun Duw i ddod â maddeuant pechodau a bywyd newydd i'w bobl. Pwysleisiwn fod Iesu yn ateb ein hangen presennol, sef yr angen am faddeuant er mwyn cael cymod â Duw.

Cyflwyno'r thema

Gallwch ddefnyddio'r naill syniad neu'r llall, neu'r ddau os bydd amser yn caniatáu.

Pwy sydd ar fai?

Byddwch angen set o gardiau, digon i bawb gael o leiaf dau gerdyn yr un. Ar un cerdyn yn y set, ysgrifennwch y geiriau "Ar fai". Byddwch hefyd angen pei o ewyn eillio (shaving foam) a lliain sychu!



Rhannwch y cardiau gan ddweud y cânt edrych ar y cardiau ond iddynt beidio â dweud beth sydd arnynt. Mae pawb yn newid cardiau, trwy gynnig eu cardiau i rywun arall ddewis un. Ar ôl cyfnewid cerdyn, cânt edrych arno ac wedyn cyfnewid cerdyn gyda pherson arall. Y nod yw cyfnewid cardiau yn gyflym ac yn aml. Ar ôl arbrawf byr, gofynnwch pwy sydd yn dal y cerdyn "Ar fai"? Chwaraewch y gêm eto, gan esbonio y bydd cosb i'r person sydd yn dal y cerdyn "Ar fai" y tro hwn. Ar ôl cyfnod, dewch â'r gêm i ben, a gofynnwch pwy sy'n dal y cerdyn "Ar fai." Dangoswch y pei ewyn eillio! Dyma'r gosb i'r



person sydd "Ar fai." Ond, efallai bydd rhywun yn fodlon cymryd y gosb yn lle'r person "euog?" Penderfynwch ymlaen llaw a ydych am ofyn am wirfoddolwr ar y pryd neu a ydych am ofyn ymlaen llaw i un aelod o'r grŵp sydd yn debygol o fod yn barod i gymryd y gosb i gymryd rhan, neu os ydych am gymryd y gosb eich hun! Does dim rhaid gweinyddu'r gosb o gwbl os nad ydych yn dymuno gwneud hynny - cewch ddychmygu'r canlyniad o roi cosb i rywun sydd yn annheilwng i'w dderbyn tra bod y person euog yn cael rhyddhad.

Ar ôl gweinyddu'r gosb, a chlirio, esboniwch mai dyma yn syml iawn wnaeth Iesu ar y groes. Roedd e'n cymryd ein cosb ni. Rydym ni i gyd wedi pechu - rydym ar fai yng ngolwg Duw, doedd Iesu ddim. Dydyn ni ddim yn gallu cael gwared o'n pechodau ond mae Iesu yn gallu gwneud hynny. Byddwn yn cysidro hyn yn ystod y wers heddiw.

Gêm Amser Cyffesu

Mae pawb yn eistedd ar gadeiriau mewn cylch gydag un person yn sefyll yn y canol (does dim angen cadw cadair yn wag i'r person yma). Mae'r person yn y canol yn gofyn cwestiwn am gamgymeriadau y mae pobl yn debygol o'i gwneud, e.e. "Ydych chi erioed wedi colli diod ar y carped?" Mae pawb sydd wedi gwneud hyn yn newid sê't ac mae'r person a oedd yn y canol yn ceisio dod o hyd i sê't hefyd. Mae'r person sydd ar ôl heb gadair yn mynd i'r canol ac yn gofyn y cwestiwn nesaf. Chwaraewch am sawl rownd cyn gwneud y pwynt bod pawb yn gwneud camgymeriadau. Efallai nad yw'r camgymeriadau rydym wedi sylwi arnynt yn rhai difrifol, ond mae'n dangos nad oes neb yn berffaith. Mae'r Beibl yn dweud ein bod i gyd yn bechaduriaid. Rydyn ni i gyd wedi torri rheolau Duw - does neb yn berffaith.

Cawn weld yn y wers heddiw sut mae Iesu wedi dod i'r byd i ddelio gyda phroblem pechod.


Darllen a deall yr Hanes

Gwylwch hanes y Croeshoeliad o'r ffilm "Gŵr y Gwyrthiau." Os nad yw hyn yn bosibl, darllenwch yr hanes o Mathew 27:32-55.

Byddwch angen siâp croes o gerdyn brown, maint A3, a'r swigod siarad yn Atodiad 7/8.

Ar ôl gwyllo'r ffilm gosodwch y groes mewn lle amlwg a dangoswch y swigen gyntaf. Esboniwch y geiriau i'r grŵp cyn symud ymlaen i'r un nesaf. Mae'r esboniadau ar gael yn yr Atodiad hefyd.

Cymhwys



Gofynnwch am dri gwirfoddolwr. Rhowch un i sefyll ar y dde ac un ar y chwith gyda bwllch o tua dwy fetr rhyngddynt. Esboniwch bod y person ar y dde yn cynrychioli Duw, a bod y person ar y chwith yn ein cynrychioli ni a phawb sydd wedi byw yn y byd erioed. Beth sydd rhyngom ni â Duw? Bwllch. Beth sy'n achosi'r bwllch? Pechod. Pwy sy'n gallu pontio'r bwllch? Dim ond Iesu. Rhowch y trydydd person i sefyll yn y bwllch gyda'i freichiau ar led. Ar y groes cymerodd Iesu ein pechodau ni arno fo ei hun a chymerodd ef gosb Duw am y pechod. Dyma bwrpas Iesu yn dod i'r byd. Dim ond person perffaith oedd yn gallu cymryd pechod pobl eraill a chael ei gosbi yn eu lle. Trwy farwolaeth Iesu rydym yn gallu cael maddeuant, ein glanhau o'n pechodau, ac felly cael perthynas â Duw.

Amser gweddi


Defnyddiwch y daflen waith ers yr wythnos ddiwethaf. Mae'r ail adran yn berthnasol i'r wers



heddiw. Gofynnwch i'r bobl ifanc ysgrifennu geiriau o amgylch y groes i ddisgrifio eu hymateb i'r hyn a glywsant heddiw. Rhwch gyfle iddynt weddio'n dawel eu hunain.

Gweddïwch dros y bobl ifanc, neu efallai y byddai un ohonynt yn hoffi gweddïo, gan ofyn am gymorth yr Ysbryd Glân i ddeall ac i dderbyn bod Iesu wedi marw yn ein lle ac i ildio ein bywydau iddo.

Gweithgarwch ychwanegol



1. Beth am rannu "Hot Cross Buns"?

2. Creu nodyn llyfr

Defnyddiwch gerdyn du a phinnau lliw aur neu arian.

Gwnewch siâp croes yn y canol gyda'r geiriau "Yn fy lle" neu "Trosom" uwch ei phen.

Wythnos 3

Yr wythnos hon ystyriwn Atgyfodiad ein Harglwydd o'r bedd yn fyw fel sail ac achos gobaith y Cristion. Mae'r Atgyfodiad yn brawf fod Iesu wedi gorchfygu pechod a marwolaeth (1 Cor. 15:12-28). Mae'n brawf fod Iesu'n gallu rhoi bywyd tragwyddol i bob un sy'n credu (Rhuf.6:23).

Cyflwyno'r thema

Gallwch ddefnyddio'r naill syniad neu'r llall, neu'r ddau os bydd amser yn caniatáu.

Marblis Siocled


Byddwch angen pacedi o "mini eggs" a tâp masgio. Marciwch gylch ar y llawr â smotyn yn ei ganol gyda'r tâp, a rhannwch yr wyau fel bod gan bob person set o wyau lliw gwahanol. Mae'r cystadleuwyr yn cymryd eu tro i rollo wŷ i'r cylch. Nôd y gêm yw bwrw wyau'r lleill allan o'r cylch. Os oes rhywun yn llwyddo, cânt fwyta'r wŷ. Yr enillydd yw'r person sydd â'r wŷ agosaf at y canol ar ôl i bob wŷ gael ei rollo.

Gofynnwch i'r bobl ifanc pam fyddwn ni'n rhoi wyau siocled adeg y Pasg? Mae'r wŷ yn symbol o fywyd newydd ac mae'n ein hatgoffa fod Iesu wedi dod yn ôl o'r bedd yn fyw.

Chreda' i ddim!

Darllenwch y datganiadau canlynol. Ar ôl pob un, gofynnwch i'r grŵp a ydynt yn credu'r datganiad neu beidio. *Mae'r ffigyrau gan yr Adran Masnach a Diwylliant yn gywir am y flwyddyn 1998.*

- ❖ Mewn blwyddyn, cafodd 957 o bobl eu hanafu gan gaws. **GWIR**
- ❖ Roedd 4,472 o bobl angen gweld y meddyg o achos brechdanau. **GWIR**
- ❖ Mae sliperi yn achosi mwy o ddamweiniau nac esgidiau glaw? **GWIR** (am un ddamwain a achoswyd gan esgidiau glaw, mae 14 o achosion sliperi).
- ❖ Mewn blwyddyn, cafodd 8,593 o ddamweiniau eu hachosi gan sanau neu deits. **GWIR**
- ❖ Cafodd 488 damwain eu hachosi gan greonau. **GWIR**
- ❖ Anafwyd 11,054 person gan feiro's, pensiliau, papur neu llyfrau. **GWIR**



Mae rhai pethau yn anodd iawn i ni eu credu! Dyma oedd profiad dilynwy'r Iesu ar Sul yr



Oed 11 - 14 Iesu'r Brenin: Marc 14-16

Atgyfodiad. Iesu yn fyw? Anodd i gredu ond gwir, fel y gwelsant wrth i Iesu ymddangos iddynt.

Darllen a deall y stori


Trwy lygaid Mair Magdalen.

Byddwch angen Beiblau a'r taflenni gwaith.

Darllenwch hanes yr Atgyfodiad gyda'ch gilydd. Wedyn, defnyddiwch y daflen waith a gychwynnwyd yn ystod y wers gyntaf. Mae'r bobl ifanc yn chwilio yn yr adnodau ac yn nodi beth a wnaeth Mair neu beth a welodd/glywodd, ar y daflen.

Cymhwyso

Trafodwch y cwestiynau ar waelod y daflen.



Amser Gweddi

Dangoswch gwpan o sudd cyrens duon (gwin) a darn o fara i'r grŵp.

Esboniwch ein bod yn dathlu Swper yr Arglwydd yn y capel i gofio am farwolaeth ac atgyfodiad Iesu. Esboniwch fod yr Symbolau yn ein hatgoffa fod Iesu wedi marw drosom a'i fod yn cynnig bywyd newydd i bawb sy'n credu ynddo. Gofynnwch a hoffai rhywrai ddiolch i Iesu am farw drosom, neu offrymwch weddi eich hun dros bawb.

Gweithgarwch ychwanegol

Mwy o gemau siocled!

Ar eich marciau

Byddwch angen papurau lapio siocled gwag (tua 30 ohonynt) gyda rhifau wedi'u gludo ar y gwaelod, mewn pentwr ar un ochr yr ystafell, fel bod y rhifau allan o'r golwg. Rhannwch y grŵp

yn dimoedd i sefyll ar ochr arall yr ystafell i'r papurau. Rhwch rif i bob aelod. Galwch rif. Mae'r aelod o bob tîm sydd â'r rhif yna yn rhedeg i nôl un papur. Ar ôl i bawb ddychwelyd, galwch rif arall ayyb nes bod y papurau i gyd wedi cael eu casglu. Mae'r timoedd yn cyfri' eu marciau a'r tîm gyda'r sgôr uchaf sydd yn ennill.

Sialens Siocled

Byddwch angen siocledi bach mewn papur. Mae'r bobl ifanc yn sefyll mewn llinell gydag un siocled yr un. Nod y gêm yw gweld pwy sy'n gallu poeri'r siocled - sydd dal yn ei bapur - bellaf!

Y Meseia

Bydd Duw yn danfon Brenin - y Meseia - bydd hwn yn teyrnasi drws bobl Dduw..... Beth ydy Eiseia yn dweud am yr un bydd Duw yn danfon? Eiseia 9:6,7



Mathew 21:1-11

Beth profwydodd Secharia am y Meseia? Secharia 9:9



Sut bydd y Meseia yn cael ei gyfarfod? Salm 118:26


Roedd traddodiad yn awgrymu byddai'r Meseia yn dod o ba fynnydd? Mt 21:1

X Nid y Meseia o freuddwydion Israel oedd Iesu - nid oedd wedi dod i orchfygu gelynyon Israel.

✓ Daeth Iesu, Tywysog Tangnefedd; ar gefn asyn i ddod a heddwch rhwng dyn a Duw trwy marw ar y groes yn ein lle. Mae am fod yn Frenin yn ein calonrau.

Y Gwaredwr

yn fy lle...



yn aberth

i fodloni Cyflawnder Duw

yn cymryd fy mhechod

Pam oedd Iesu wedi marw?

Beth yw fy ymateb?



Yr Arglwydd

Yr Atgyfodiad - trwy lygaid Mair

Marc 16:1,3


Marc 16:4,5

Marc 16:4,5

Ioan 20:11,14

Ioan 20:15

Ioan 20:16





Ioan 20:18

Beth mae'r adnoddau yma yn ein dysgu am Atgyfodiad Iesu? Actau 2:24 Rhufeiniaid 8:11 1 Corinthiaid 15:20

I bwy mae Iesu'n addo bywyd? Rhufeiniaid 10:9






Atodiad 1
Iesu'r Brenin: Marc 14-16







Atodiad 2 Iesu'r Brenin: Marc 14-16





Atodiad 3 Iesu'r Brenin: Marc 14-16



Sarah Morris

Iesu, rwy't ti'n fyw.

Mair Owen

Dy-maddiwr-nod trist, Y trist-af fu er-ioed, Fe gym-ron nhw fy ffrind, U-nig Fab Duw,
 Dy-maddiwr-nod llon, Y llonn-af fu er-ioed, Pan ed-ry-chais am fy ffrind, U-nig Fab Duw,




5
 Ei hoel-io ar y groes - Gan wyl-io Ef yn ma rw Cyn-llun gwych fy Nuw prawf o'i
 Roedd y bedd yn wag Roedd Ie-su nawr yn fyw Cyn-llun gwych fy Nuw prawf o'i




CYTGAN

9
 ga - riad. Ie - su, rwy't ti'n fyw, Ie - su yn fyw byth byth-oedd,
 ga - riad.



12
 Ie - su ein Gwa-re - dwr, Ie - su, fe'th fo lwn di.





Daeth

Crist

Iesu

i'r

byd

i

achub

pechaduriaid

1 Timotheus 1:15



Atodiad 6 Iesu'r Brenin: Marc 14-16

Atodiad Swigod Siarad

Yn hwyr ar y nos Sadwrn, pan oedd y Saboth drosodd, es i, gyda Salome a Mair mam Iago i brynu perllysiau ar gyfer eneinio corff Iesu.

Roeddwn ni wedi bod yn trafod ar ein ffordd yno pwy oedd yn mynd i rollo'r garreg oddi ar geg y bedd.

Ond pan gyrhaeddwn ni'r bedd dyma ni'n gweld fod y garreg, oedd yn un drom iawn, eisoes wedi ei rholio i ffwrdd.

Es i i mewn i'r bedd. Dyma fraw ges i! Roedd angel yn eistedd yno! "Peidiwch dychryn," meddai wrthyf. "Mae Iesu wedi dod yn ôl yn fyw. Ewch, a dweud wrth ei ddisgyblion a Pedr."

Clywais i rhywun tu ôl i mi yn gofyn pam oeddwn yn crio ac am bwy oeddwn yn chwilio. Roeddwn i'n meddwl mai'r garddwr oedd e, a dwedais, "Syr, os mai ti sydd wedi symud fy Arglwydd, dywed lle rwyd ti wedi ei roi e, a bydda i'n mynd i'w nôl e."

Rhedais i ddweud wrth y disgyblion, "Dw i wedi gweld yr Arglwydd!"



1.

"Dad, maddau iddyn nhw. Dyn nhw ddim yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud."

2

"Wir i ti -
cei di ddod
gyda mi i
baradwys
heddiw."

Adnod 1 Dad, maddau iddyn nhw...Luc 23:34. Mae Iesu yn gweddio ar ei Dad i faddau i'w elynion hy. y bobl oedd wedi ei groeshoelio a'r bobl oedd yn ei watwar wrth y groes. Rydym ni yn elynion i Iesu hefyd (Rhufeiniad 5:10)ond mae e'n awyddus i faddau i ninnau hefyd.

Adnod 2 Wir i ti...Luc 23:43 Dyma eiriau Iesu i'r lleidr a oedd hefyd yn cael ei groeshoelio. Mae'r lleidr wedi cydnabod ei fod e'n euog a mae'n gofyn i Iesu ei gofio - geiriau o gyffes ac edifeirwch. Mae Iesu yn addo bydd y lleidr gydag ef yn y nef. Mae Iesu yn addo bod lle yn y nef i bawb sy'n cyffesu eu pechod, yn edifarhau ac yn credu ynddo. *Ydy'r plant yn deall ystyr y gair edifarhau?*

Adnod 3 Mam annwyl cymer e fel mab i ti... Ioan 19:26-27. Roedd Mair, mam Iesu wrth y groes ar y prynhawn ofnadwy yma gyda Mair Magdalen a dwy ddynes arall. Yr unig ddisgybl mewn golwg oedd Ioan. Roedd gan Iesu gonsyrn dros ei fam hyd yn oed yng nghanol ei boen a'i ddioddefaint. Mae gan ddilynwyr Iesu esiampl i ddilyn yma.

Adnod 4 Eli, Eli.... pam wyt ti wedi troi dy gefn arnaf? Mathew 27:46. Pam oedd Duw wedi troi Ei gefn ar Ei fab? Oherwydd, ar y groes roedd Iesu yn cael ei gosbi am ein pechod ni - roedd e'n cymryd ein beiau ni. *Cofiwch y gêm ar y dechrau?* Dydi Duw ddim yn gallu edrych ar bechod am Ei fod yn hollol bur. Ac felly, am y tro cyntaf erioed mae Duw yn troi Ei gefn ar Iesu, dydy Ef ddim yn gallu gwneud dim ag ef. Mae hyn yn dangos i ni pa mor difrifol yw ein pechod ni a pha mor anhygoel ydy cariad Duw tuag atom!

adnod 5 Dwi'n sychedig. Ioan 19:28. Mae'r geiriau yn cyflawni proffwydoliaethau yn Salm 22 a 69, sy'n cadarnhau mae nid damwain oedd marwolaeth Iesu ond rhan o gynllun Duw oedd wedi cael ei ragddweud.

Adnod 6 Mae'r cwbl wedi.. Ioan 19:30. Mae gwaith Iesu ar y groes ar ben. Mae e wedi bodloni gofynion Duw am gyfiawnder trwy gymryd cosb pechod ei hun. Mae wedi arllwys ei waed yn wirfoddol yn aberth i gyflawni gofynion y Gyfraith. Haleliwa! Diolch iddo!

Adnod 7 Dad, dw i'n rhoi....Luc 23:46. Mae Iesu yn gwybod ei fod wedi bodloni Duw ac ei fod yn mynd yn ôl at ei Dad.



4

, "Eli, Eli, lama
sabachthani?" -
"Fy Nuw, fy
Nuw, pam wyt ti
wedi troi dy
gefn arna i?"

3

"Mam annwyl,
cymer e fel mab i
ti,"
"Gofala amdani hi
fel petai'n fam i
ti."

5

"Dwi'n
sychedig,"

6



"Mae'r
cwbl wedi
ei wneud."

7.

, "Dad, dwi'n
rhoi fy
ysbryd yn dy
ddwylo di."



Atodiad 9 Iesu'r Brenin: Marc 14-16





Sgets i'r Gwasanaeth Cymerwch y feddyginiaeth!!!

- Tad: Dw'i ddim yn deall na faset ti wedi dechre gwella erbyn hyn! Beth yn y byd yw afiechyd fel hyn?
- Mam: Mae e'n beth rhyfedd. Dw'i heb weld neb yn dioddef mor hir.
- Nain: Ooooo! Dw'i mewn poen!
- Mam: O! Nain fach, dwi'm yn gwybod beth i awgrymu.
- Ffrind: Wel, rwy'n cofio ffrind i fi yn dioddef o'r un math o beth, ac fe gymrodd e lond gwlad o ddail a brigau wedi eu berwi mewn sosban, ac yna yfed y cyfan efo ychydig o fêl.
- Nain: Oooooo! Poen! Mae hynna yn swnio'n 'disgusting'!
- Dad: Pa fath o goed a dail oedd y rhain? Ydy dy ffrind wedi gwella?
- Ffrind: Dim syniad beth oedd y gymysgedd; ac na, dydi o ddim lot yn well.
- Mam: Hwnna yn gyfraniad gwerthfawr felly!
- Mab: Dw'i wedi clywed fod meddyginiaethau dwyreiniol yn bethau sydd â lot o fynd arnyn nhw.
- Dad: Mae'r siop efo meddyginiaethau o Tseina yn edrych yn lle prysur iawn yn y dref. Lot o fynd i fan hynny!
- Mab: Mae nghariad i yn cymryd yr 'alternative medicine' ma, ac yn deud nad oes dim tebyg iddo.
- Mam: Ma dy gariad di yn heipocondriac! Mae'n siŵr ei bod hi di trio popeth, a mae hi'n dal i gwyno. Cyfraniad gwerthfawr arall!
- Dad: Beth am hypnoteiddio? Roedd 'na foi ar y teledu neithiwr oedd yn medru gwella pobl oedd yn gwyllo'r rhaglen o bell. Roedd un ddynes oedd yn dioddef yn go sownd o'r peils; wel dyma hi'n ffonio mewn i ddeud ei bod wedi gwella.
- Mam: Roedd y ddynes yn swnio fel tase hi ar y pop. Tebyg mae'r gwin coch oedd wedi gwneud iddi hi deimlo'n well! Beth amdanat ti, oes gen ti ryw syniadau, ryw gyfraniad i'r drafodaeth feddygol 'ma.
- Merch: Mi fydda yn teimlo fod rhoi ychydig o 'make up', ychydig o bersawr, ychydig o dlysau yn werthfawr. Mi fyddaf yn teimlo'n well pan y byddaf wedi pampro fy hun, yn enwedig os oes gennyf ddillad newydd hefyd.
- Dad: Dyna'r ateb felly, bant â nain i'r salon, i Top Shop, ac mi fydd fel person newydd. Radical iawn!
- Mam: Mae'n beth od nad yw'r moddion yna gawsoch chi gan y meddyg wedi dechrau gweithio. Mae yna bedwar diwrnod ers i chi gael y presgriptiwn.
- Nain: Oooooo! poen! dal mewn poen.
- Ffrind: Gadewch imi weld pa foddion roddodd y meddyg. Efallai bod angen dos gryfach.
- Mam: lawn, mae'r moddion yn y cwpwrdd yma. *(yn estyn y moddion ac yn sylwi fod y botel heb ei agor)*
- Ffrind: Mae hwn yn bownd o weithio! Yn enwedig petai rhywun yn agor y botel!!
- Dad: Nain, ydych chi wedi bod yn cymryd y moddion 'ma?
- Nain: Ooooo! poen, dim yn hoffi moddion.
- Mam: Pam mynd at y meddyg os nad ydych yn bwriadu cymryd y moddion?
- Ffrind: Pam gwario yn y siop cemist os nad ydych yn cymryd y moddion?
- Mab: Dw'i dim wedi clywed am neb yn gwella wrth brynu'r moddion yn unig!
- Merch: Dw'i ddim wedi clywed am neb yn gwella wrth edrych ar y botel.
- Nain: Ond, Oooooo, mae'n job cyrraedd y botel.
- Mam: Y camau arferol yw gweld y meddyg, nôl y moddion a chymryd y moddion. Newch chi ddim gwella heb y moddion.
- Nain: Ooooo! cymryd y moddion? O ni yn meddwl y byddai'r afiechyd yn mynd ohono'i hun.
- Dad: Beth am drïo cymryd y moddion? Pwy a wŷr na fydd hynny yn gwneud gwahaniaeth?



Diwrnod i ddathlu

Bydd cyfle i'r plant gymryd rhan yn y gwasanaeth gan ddefnyddio pethau y maent wedi eu gwneud yn ystod y gwersi.

Mae rhestr o ganeuon y gallwch eu defnyddio ar ddiwedd y gwasanaeth hwn.

Beth am gael rhai o'r plant/bobl ifanc i gynorthwyo i gyfeilio yn ystod y gwasanaeth?

Defosiwn : Gair o groeso, gweddi, emyn/cân

Cyflwyno'r thema: Wŷ Pasg siomedig

Byddwch angen wŷ Pasg eithaf mawr mewn bocs - un sydd yn eistedd mewn mowld plastig clir fyddai orau. Cyn yr Oedfa, tynnwch yr wŷ allan o'r bocs a'r papur sydd yn ei lapio yn ofalus.

Wedyn, ail osod y papur yn y plastig a'i osod yn ôl yn y bocs, bydd hi'n edrych fel pe bai yna wŷ yn y boc. Cadwch y siocled allan o'r golwg yn barod i'w rannu ar ddiwedd y gwasanaeth.

Gofynnwch i'r plant os ydynt wedi derbyn wyau Pasg? Trafodwch gyda nhw faint o wyau y maent wedi eu cael, pa rai sydd orau ayyb. Esboniwch eich bod wedi prynu wŷ a'i ddangos iddynt.

Gofynnwch am wirfoddolwr i helpu agor y boc. Agorwch y boc gan arddangos cynnwrf mawr - ac wedyn siom wrth ddarganfod fod y boc yn wag!

Cymharwch eich teimladau chi gyda theimladau Mair a Pedr wrth iddynt ddarganfod fod bedd Iesu yn wag! Atgoffwch y plant o hanes Iesu yn cael ei groeshoelio a'i gladdu. Yn gyntaf, roedd ffrindiau Iesu mewn sioc ac wedi'u siomi. Ble oedd corff Iesu? Pwy oedd wedi'i gymryd? Ond wedyn, y fath lawenydd i ddarganfod fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw! Dyna'r hyn yr ydym yn ei ddathlu heddiw, bod Iesu wedi Atgyfodi.

Dangoswch yr wŷ siocled sydd wedi dod allan o'r boc. Esboniwch y bydd pawb yn cael darn ohono ar ddiwedd y gwasanaeth.

Eitemau: Darlleniad - yr Atgyfodiad, Mathew 28:1-10, neu allan o un o'r Beiblau Plant
Cân gan y plant ar thema'r Atgyfodiad (Atodiad 4).

Cwis: Geiriau Pwy?

Cwis i adolygu hanes Y Pasg. Bydd pob ateb cywir yn ennill wŷ Pasg bach i'r tîm. Rhannwch y gynulleidfa a'r plant yn ddau dîm. Dechreuwch bob cwestiwn gyda'r geiriau, "Geiriau pwy?"

Gofynnwch i un person gadw'r sgôr.

"Ewch i'r pentref acw sydd o'ch blaen chi, a gwelwch asyn wedi ei rhwymo a'i hebol gyda hi. Dewch â nhw yma i mi..." Iesu, ar Sul y Blodau.

"Hosanna i Fab Dafydd!" Y dorf, ar Sul y Bodau.

"Faint wnewch chi dalu i mi os wna i ei fradychu e?" Jwdas Iscariot, wrth yr Archoffeiriaid.

"Cymerwch y bara yma, a'i fwyta; dyma fy nghorff i." Iesu, wrth ddathlu swper y Pasg gyda'u ddisgyblion.

"Na! Wna i byth wadu mod i'n dy nabod di! Hyd yn oed os bydd rhaid i mi farw gyda thi!" Pedr, wrth Iesu, yn ystod y swper.

"Eich mawrhydi! Brenin yr Iddewon!" Y milwyr Rhufeinig, wrth groes Iesu.



Gwasanaeth Teuluol Iesu'r Brenin: Marc 14-16

“Roedd e'n achub pobl eraill, ond dydy e ddim yn gallu achub ei hun! Beth am i ni ei weld yn dod i lawr oddi ar y groes yna, os mai Brenin Israel ydy e! Gwnawn ni gredu wedyn! Mae'n dweud ei fod e'n trystio Duw, gadewch i ni weld Duw yn ei achub e! Onid oedd e'n dweud ei fod yn Fab Duw?”
Yr Archoffeiriad, athrawon y Gyfraith a'r henuriaid, wrth y groes.

“Iesu, cofia amdana i pan fyddi di'n teyrnasu.” *Un o'r lladron a groeshoeliwyd gydag Iesu.*

“Yn wir, Mab Duw oedd hwn.” *Y canwriad wrth y groes, wrth i Iesu farw.*

“Gorffennwyd.” *Iesu, wrth iddo farw ar y groes.*

Penderfynwch pwy sydd wedi ennill y cwis a faint o wyau sydd i bob un.

Cyn yr eitemau nesaf, dylech gyfeirio at ateb olaf y cwis. Dyma eiriau Iesu wrth iddo farw ar y groes. Bydd yr eitemau nesaf yn cyfeirio at farwolaeth Iesu ar y groes.

Darlleniadau: Mathew 27:32-40; Ioan 19:23-30.

Cyflwyniad/sgets: Cymerwch y meddyginiaeth! – ystyr y groes (Atodiad 10)

Dysgu adnod

“Mae'r Meseia wedi marw dros ein pechodau ni, fel mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud. Cafodd ei godi yn ôl yn fyw ddeuddydd wedyn...” **1 Corinthiaid 15:3,4**

Ysgrifennwch yr adnod ar ddarn mawr o bapur, neu ar gyfer taflunydd neu ar PowerPoint yn barod i ddangos i bawb.

Beth yw ystyr yr adnod? Mae Duw wedi trefnu bywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu.

Pam? Mae pechod fel salwch ac mae pawb yn dioddef o'r salwch. Fedrwn ni ddim gwella ein hunain. Iesu ydy'r moddion. Mae Iesu yn medru symud ein pechod i fwrdd a'n gwneud yn iach. Dyma oedd neges y sgets - os ydym am fod yn iach mae'n rhaid i ni gymryd y feddyginiaeth bwrpasol.

Dyma reswm arall pam yr ydym yn dathlu heddiw - trwy Iesu gawn faddeuant.

Cyflwyniad: Pa wahaniaeth mae'r Atgyfodiad yn ei wneud?

1. I Mair (a'r disgyblion eraill).

Edrychwch ar y lluniau - Atodiad 9. Cewch ddefnyddio'r lluniau ar Daflunydd neu PowerPoint, neu eu chwyddo'n fawr.

Pwysleiswch eu hapusrwydd a bod dim angen eneinio corff Iesu oherwydd roedd yn fyw.

2. I ni - gobaith o fywyd gyda Iesu.

Rydym wedi sôn bod Iesu yn gallu maddau ein pechodau. Pan fyddwn yn sylweddoli ein hangen am faddeuant ac yn gofyn o waelod calon i Iesu faddau inni, mae Iesu yn rhoi calon newydd i ni a bywyd newydd. Dywedodd Iesu wrth ei ffrindiau fod pawb sy'n credu ynddo yn cael bywyd tragwyddol, bywyd fydd yn para am byth. Efallai bod hyn yn anodd iawn i ni ddeall ond mae'r



Gwasanaeth Teuluol Iesu'r Brenin: Marc 14-16

bywyd hwn yn rhodd anhygoel gan Dduw oherwydd mae'n ein caru ac mae'n dymuno i ni gael bod gydag Ef.

Mae'r ffaith fod Duw wedi rhoi bywyd newydd i Iesu yn gymorth inni gredu y bydd Duw yn awyddus i roi bywyd i ninnau hefyd. Dyma reswm arall am ddathlu heddiw, bod Duw yn ein caru gymaint, ac eisiau i ni fod yn rhan o'i deulu Ef.

Gweddï (*gydag ymateb cynulleidfaol*)

Diolch Iesu, am ein caru ni.

Haleliwia, Mae Iesu'n fyw

Diolch am ddioddef drosom er mwyn i ni gael bywyd newydd.

Haleliwia, Mae Iesu'n fyw

Molwn dy enw am orchfygu marwolaeth,

Haleliwia, Mae Iesu'n fyw

Diolch am gymorth yr Ysbryd Glân i fyw i dy blesio

Haleliwia, Mae Iesu'n fyw

Amen.

Cymhwyso'r neges i'r oedolion – os yn berthnasol

Emyn/cân i ddiweddu'r oedfa

Awgrymiadau ar gyfer emynau:

'Caneuon Ffydd': 408, 414, 416, 422, 555, 562, 564

'Tyrd i Ddathlu': 1, 7, 8, 10, 18,